

Trosolwg o'r Bwrdd

1. Mae Theatr Spectacle Cyf yn elusen gofrestredig a gaiff ei llywodraethu gan Fwrdd sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys saith o ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am waith y sefydliad ac mae'n :

- goruchwyllo'r gwaith o lywodraethu'r sefydliad
- sefydlu strategaeth
- rheoli'r gwaith o gyflawni'r strategaeth
- cyfrannu at arwain yr elusen

2. Yr Ymddiriedolwyr presennol yw:

- Meryl Hopwood Is-Gadeirydd
- Matt Byrne Trysorydd
- Jeremi Cockram
- Liam Maguire
- James Watt Rees
- Dee Thorne
- Jacqui Rafferty

3. Yn ymarferol, mae Theatr Spectacle Cyf yn dirprwyo i Reolwr y Theatr. Mae hyn yn galluogi'r elusen i elwa ar sgiliau a gwybodaeth yr Ymddiriedolwr, a'r tîm cyfarwyddo a gweinyddol, i fanteisio ar ansawdd y llywodraethu a'r arweinyddiaeth a ddarperir i'r sefydliad.

Ni ddylai nifer yr ymddiriedolwyr fod yn is na thri ond ni fydd uchafswm i nifer yr ymddiriedolwyr.

4. Mae gan y Bwrdd Gadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd. Blwyddyn yw tymor pob un o'r rolau hyn, ond gellir ei ymestyn os mai dyna ddymuniad y bwrdd.

5. Isafswm y disgwyliadau a roddir ar yr Ymddiriedolwyr gan y Bwrdd yw:

- a. presenoldeb yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd
- b. bod ar gael ar y ffôn neu drwy e-bost o bryd i'w gilydd i gynghori'r Cadeirydd neu Reolwr y Theatr
- c. cyfrannu at is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl yr angen

6. Hyd y tymor ar gyfer Ymddiriedolwyr yw o leiaf dwy flynedd. Disgwylir i ymddiriedolwyr wasanaethu rhwng tair a phum mlynedd.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr - Cylch Gwaith

Rôl

Rôl y Bwrdd yw darparu llywodraethiant effeithiol i Theatr Spectacle Cyf er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau ac amcanion.

Cyfrifoldebau

1. Sicrhau bod Theatr Spectacle Cyf. yn gweithredu o fewn ei Gyfansoddiad a'r holl ddeddfwriaethau sy'n berthnasol iddo fel elusen ac fel cwmni.
2. Rheoli, adolygu a datblygu trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol y sefydliad (gan gynnwys gweithio i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd y Bwrdd).
3. Pennu amcanion strategol y sefydliad.
4. Cynnig arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni.
5. Goruchwylio rheolaeth y sefydliad.
6. Monitro perfformiad Rheolwr y Theatr
7. Cymryd rheolaeth gyffredinol dros faterion ariannol Theatr Spectacle Cyf a gwarchod ei asedau.
8. Gwneud penderfyniadau a gweithredu eu dyletswyddau er budd gorau yr elusen gyfan ar bob achlysur, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth bresennol ac yn unol â nodau ac amcanion y sefydliad 'Bristol Autism Support'.

Aelodaeth

Bydd yr Ymddiriedolwyr sydd wedi rhoi'r gwasanaeth hiraf yn ymddeol yn ôl y drefn. Bydd hyn yn digwydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Os na chaiff y swydd ei llenwi yn y cyfarfod, yna gall yr Ymddiriedolwr, os yw'n dymuno, gael ei ail benodi. Disgwylir i'r Ymddiriedolwr wasanaethu rhwng tair a phum mlynedd.

Presenoldeb Aelodau

Cyfrifoldeb Rheolwr y Theatr yw sicrhau bod cofnodion cywir o gyfarfodydd y bwrdd yn cael eu cadw. Bydd yn mynd i bob cyfarfod gan sicrhau bod cofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a thrafodaethau yn cael eu cadw.

Bydd y Cadeirydd yn bresennol ym mhob cyfarfod ac yn eu harwain, neu'n penodi dirprwy i wneud hynny. Mae'r Trysorydd yn bresennol ym mhob cyfarfod i roi trosolwg o sefyllfa ariannol y sefydliad.

Yn ogystal, bydd Rheolwr y Theatr fel rheol yn bresennol ym mhob cyfarfod Bwrdd. Fodd bynnag mae gan y Bwrdd yr hawl, am ran o bob cyfarfod i neilltuo amser i gwrdd heb Rheolwr y Theatr er mwyn trafod materion sy'n ymwneud a'i berfformiad a'i dâl neu faterion ehangach y bydd y Cadeirydd yn penderfynu mai trafodaeth ar gyfer yr aelodau yn unig sy'n briodol.

Recriwtio i'r Bwrdd

1. Mae angen i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais yn nodi manylion amdanynt eu hunain a'u haddasrwydd fel Ymddiriedolwr.
2. Mae'r ceisiadau hyn yn hollol gyfrinachol ac yn cael eu hadolygu gan yr Ymddiriedolwyr yn erbyn meini prawf y sgiliau a osodwyd gan y Bwrdd.
3. Bydd yr ymgeiswyr sydd, ar sail eu cais, yn bodloni gofynion y meini prawf, yn cael eu gwahodd am gyfweiliad anffurfiol gydag un neu fwy o Ymddiriedolwyr.
4. Yn dilyn y cyfweiliad, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd i gwrdd â gweddill yr Ymddiriedolwyr a Rheolwr y Theatr. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan bawb ynghylch a fydd yr ymgeisydd yn cael ei benodi i'r Bwrdd a chaiff trefniadau cynefino priodol eu gwneud.
5. Dyma pryd y cysylltir â'r ymgeiswyr aflwyddiannus i'w hysbysu nad oeddent yn llwyddiannus a diolch iddynt am eu diddordeb.
6. Ar ôl cyflwyno'r ffurflenni cais dylai'r holl ohebiaeth gael ei wneud drwy e-bost at Rheolwr y Theatr : steve.spectacletheatre@gmail.com

Disgifiad o Rôl Ymddiriedolwr

Prif Bwrpas

Y bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r elusen a'i chyfeiriad strategol cyffredinol, datblygu dibenion, amcanion a nodau'r sefydliad yn unol â'r ddogfen lywodraethu, a chanllawiau cyfreithiol a rheolaethol.

Prif Gyfrifoldebau :

- Sicrhau fod Theatr Spectacle Cyf yn cydymffurfio bob amser â'i Gyfansoddiad, gyda chyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaethau a rheoliadau perthnasol eraill.
- Sicrhau fbod Theatr Spectacle Cyf yn dilyn ei amcanion yn ôl y diffiniad yn ei gyfansoddiad.
- Cadw rheolaeth ariannol briodol a sicrhau bod Theatr Spectacle Cyf yn defnyddio ei adnoddau yn gyfan gwbl i gyflawni ei nodau h.y., ni ddylai'r elusen wario arian ar weithgareddau nad ydynt wedi eu cynnwys yn ei nodau elusennol, waeth pa mor glodwiw neu elusennol yw'r gweithgareddau hynny.
- Datblygu strategaeth, gosod polisi gyffredinol, diffino nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.